**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

9 Chwefror 2026

Annwyl Jeremy

Diolch am eich ymateb diweddar i'n hadroddiad ar wasanaethau offthalmoleg yng Nghymru, a drafodwyd gennym yn ein cyfarfod ar 4 Chwefror.

Roedd ein hadroddiad yn cynnwys 17 o argymhellion a oedd wedi'u bwriadu i dynnu sylw at y sylw brys sydd ei angen i fynd i'r afael ag oedi mewn gwasanaethau offthalmoleg ac atal achosion y gellid eu hosgoi o golli golwg. Er bod eich ymateb yn derbyn nifer o'n hargymhellion yn rhannol, mae llawer o'r camau gweithredu a nodwyd gennych yn dibynnu ar drefniadau llywodraethu newydd sy'n dal i gael eu datblygu ac nad oes disgwyl iddynt gael eu cwblhau tan fis Ebrill.

Mae eich ymateb yn tynnu sylw at sawl ffrwd waith sydd wedi dechrau eisoes, ac yn rhoi enghreifftiau o gynnydd, ond nid yw'n nodi dyddiadau pendant ar gyfer llawer o'r argymhellion, ac mae sawl ymrwymiad wedi'u gohirio nes y bydd asesiad pellach neu benderfyniadau yn y dyfodol gan y llywodraeth.

Fel y gwyddoch, rydym yn cynnal dadl yn y cyfarfod llawn ar ein hadroddiad ar 25 Chwefror. Cyn hynny, cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch gyda'r cwestiynau canlynol. Byddwn yn gwerthfawrogi ymateb gennych erbyn 23 Chwefror, fel y gall yr Aelodau ei ystyried cyn y ddadl.

## Camau brys a chamau dros dro

1. O ystyried rhybudd y Pwyllgor bod angen gweithredu ar frys i atal achosion y gellid eu hosgoi o golli golwg, pam nad yw eich ymateb yn cynnwys unrhyw fesurau uniongyrchol neu dros dro i'w cymryd cyn i'r trefniadau llywodraethu newydd fod ar waith?

## Atebolrwydd yn ystod yr adolygiad llywodraethu

2. Gan na ddisgwylir i ddiwygiadau llywodraethu gael eu cwblhau tan fis Ebrill 2026, pa drefniadau fydd ar waith yn y cyfamser i sicrhau atebolrwydd a chynnydd mewn meysydd fel cyflwr ystadau ac amnewid offer, er mwyn atal dirywiad pellach?

Trawsnewid digidol

3. Mae eich ymateb yn nodi’r “amserlen uchelgeisiol a graddfa'r newid sydd ei angen” wrth gyflawni’r Rhaglen Gofal Llygaid Digidol. Beth yw'r tebygolrwydd presennol o gadw at y dyddiad cau ar gyfer gweithredu ym mis Mawrth 2026?
4. Yng ngoleuni pwysigrwydd rhaglenni digidol, a'r oedi a'r pwysau o ran cost sy'n effeithio ar OpenEyes, a wnewch chi ailystyried darparu datganiad llafar i sicrhau craffu cyhoeddus llawn ar y risgiau o ran cyflawni?

Adrodd am niwed:

5. Mae eich ymateb yn nodi bod protocol safonol ar gyfer adrodd am niwed eisoes ar waith, a bod hyfforddiant yn cael ei ddatblygu gan Berfformiad a Gwelliant y GIG. A allwch chi nodi pryd yr ydych yn disgwyl i ddatblygiad yr hyfforddiant hwnnw gael ei gwblhau, a'r amserlen ar gyfer ei gyflwyno? A allwch chi hefyd nodi eich disgwyliadau cydymffurfio?

Y Gweithlu ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC):

6. Nid yw eich ymateb yn mynd i'r afael ag argymhellion 13, 14, 16 a 17, gan nodi bod AaGIC yn y sefyllfa orau i ddarparu diweddariadau ac ymatebion ar faterion sy'n ymwneud â hyfforddiant, cynllunio'r gweithlu a strategaethau gweithlu trawsbroffesiynol. Rydym wedi ysgrifennu at AaGIC am ei ymateb, ond gofynnwn pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod cyllid ar gyfer lleoedd hyfforddi ychwanegol yn cael ei sicrhau?
7. O ystyried pwysigrwydd strategol y materion a godwyd, a bod Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at bwysau ar y gweithlu fel her allweddol wrth ddarparu gwasanaethau offthalmoleg, pam na wnaethoch chi ymateb yn uniongyrchol i'r argymhellion hyn?

Edrychaf ymlaen at glywed gennych ynglŷn â’r mater pwysig iawn hwn.

Yn gywir,



Peter Fox AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu’n Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.